CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	19 Tachwedd 2026
TEITL A CHYFNOD ADRODD	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd: Ebrill – Awst 2026
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Craig ab Iago

CRYNODEB CYFFREDINOL A CHASGLIAD
Beth yw eich asesiad cyffredinol o berfformiad yr Adran?
Rwyf yn fodlon â pherfformiad Adran Amgylchedd yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill ac Awst 2026. Er bod rhai gwasanaethau wedi wynebu heriau sylweddol yn ymwneud â chapasiti staffio, newidiadau i'r gweithlu a phwysau gweithredol cynyddol, mae trefniadau wedi eu rhoi ar waith i reoli'r risgiau hyn a chynnal darpariaeth gwasanaethau. Gwelwyd cynnydd parhaus yn erbyn y cerrig milltir sydd wedi eu gosod ar gyfer blaenoriaethau Cyngor Gwynedd sydd yn rhan o Gynllun y Cyngor 2023-28. Mae'r trafodaethau yn y cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad wedi rhoi sicrwydd fod y prif risgiau yn cael eu hadnabod a'u rheoli'n briodol.
A ydych yn fodlon ar berfformiad cyffredinol yr Adran?
Rwy'n fodlon gyda pherfformiad yr Adran, sy'n parhau'n sefydlog, gyda thystiolaeth o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor a gwaith clir yn cael ei wneud i ymateb i'r meysydd lle mae heriau'n parhau. Hoffwn ddiolch i staff yr Adran am eu hymrwymiad a'u gwaith parhaus wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol i drigolion Gwynedd Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth Cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad yr Adran Amgylchedd ar 5 Hydref a oedd yn cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a Rheolwyr Gwasanaeth, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

PRIF FATERION PERFFORMIAD
Beth yw'r prif faterion perfformiad y dylid eu hamlygu?

PROSIECTAU BLAENORIAETH O GYNLLUN Y CYNGOR

Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar neu'n cyfrannu tuag at bedwar o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, sef:

- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr;
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Gwastraff ac Ailgylchu;
- Teithio Llesol.

Rwy'n croesawu'r gwaith a gyflawnwyd hyd yma eleni, ac amlinellir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y pedwar blaenoriaeth yn Atodiad 2.

MESURAU PERFFORMIAD

Mae Atodiad 3 yn cynnwys y mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau ar draws yr Adran. Mae'r adroddiad cynhwysfawr yn cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, ynghyd â chyd-destun ac esboniad pellach sy'n rhoi mwy o gig ar yr asgwrn ar gyfer perfformiad yr holl feysydd.

Yn ystod y cyfarfod Herio a Chefnogi Perfformiad diweddar, cafwyd trafodaeth am gyfnod o newid yng ngweithlu'r **Gwasanaeth Cynllunio** dros y 18 mis diwethaf, gyda nifer o swyddogion profiadol yn ymddeol, yn gadael am gyfleoedd eraill neu'n absennol o'r gwaith am gyfnod estynedig.

Mewn ymateb, mae'r Gwasanaeth wedi parhau i fuddsoddi mewn cynllunio gweithlu a datblygu talent newydd, gan benodi a datblygu nifer o hyfforddeion a swyddogion newydd, yn ogystal â llenwi swyddi uwch yn fewnol. Er bod lefel staffio'r Gwasanaeth bellach mewn sefyllfa fwy sefydlog, mae colli nifer sylweddol o aelodau profiadol o staff mewn cyfnod byr wedi arwain at ostyngiad mewn profiad, arbenigedd a gwybodaeth sefydliadol.

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae Cynllun Gweithredu a Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer rheoli capasiti, datblygu'r gweithlu a chynnal perfformiad yn cael ei baratoi, a bydd nodyn yn cael ei rannu gyda'r Aelodau yn fuan.

Nodwyd hefyd fod materion gorfodaeth ar achosion penodol wedi golygu dargyfeirio amser staff y **Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu** yn y cyfnod dan sylw. Mae hyn wedi cynnwys gwaith ar achosion strwythurau peryglus (Corbett Arms, Tywyn ac eraill) a oedd yn gofyn am ymyraethau cymhleth ar unwaith, a bod hynny yn ei dro wedi cael peth effaith ar berfformiad wrth benderfynu ar geisiadau o fewn cyfnod penodol.

Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod disgwyl eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru yn y misoedd nesaf ar ddyfodol y maes Rheolaeth Adeiladu. Nodwyd y gallai newidiadau cenedlaethol i'r trefniadau gweithredu a rheoleiddio gael effaith ar y gwasanaeth yn y dyfodol, ac felly bydd angen ystyried y datblygiadau hyn wrth gynllunio camau nesaf y Cyngor.

Ym maes **Iechyd yr Amgylchedd**, nodwyd fod addasu wedi bod i rai mesuryddion o ran arolygiadau safonau a hylendid bwyd. Er bod y perfformiad presennol yn adlewyrchu blaenoriaethu arolygiadau risg uchel yn unol â gofynion yr Asiantaeth

Safonau Bwyd, nodwyd y byddai cynnwys gwybodaeth am gynnydd yn erbyn y rhaglen arolygu flynyddol, a nodi'r perfformiad yng nghyd-destun ol-groniad sy'n parhau yn ddefnyddiol. Mae gwaith yn digwydd i sicrhau fod yr wybodaeth yma ar gael i'r dyfodol er mwyn Cynnig cyd-destun ychwanegol defnyddiol i gynorthwyo dehongli'r dangosydd.

Tynnwyd sylw penodol at waith gan **Wasanaeth Busnes (Gweinyddol)** yr Adran a fu ymhlith y cyntaf yng Nghymru i fod yn mudo i system HMLR ar gyfer prosesu ceisiadau pridiannau tir. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ar y cynllun. Nodwyd fod nifer y ceisiadau pridiannau tir wedi lleihau yn sylweddol ond fod y mesurydd bellach yn cynnwys chwiliadau Rheolaeth Adeiladu. I'r dyfodol, bydd y Gwasanaeth yn amlygu y newid yma wrth adrodd ac yn tynnu sylw at y rhaniad mewn ceisiadau pridiannau tir a chwiliadau Rheolaeth Adeiladu.

RISGIAU ALLWEDDOL
Unrhyw faterion sy'n achosi pryder o ran risgiau'r Adran?
Noder uchod y prif feysydd lle mae heriau presennol a'r mesurau lliniaru a'r camau datblygu sydd wedi eu cyflwyno lle mae angen.

Atodiad 1 – Sylwadau'r Aelodau Craffu

Atodiad 2 – Cynnydd ar gerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor

Atodiad 3 – Mesuryddion Perfformiad yr Adran